**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLANELWEDD, POWYS) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Llanelwedd, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob traffig (modur a difodur) a phob anifail da byw rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cylchfan yr A470/A483 hyd at bwynt 30 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol sy'n arwain at y brif fynedfa i gerbydau i Faes Sioe Frenhinol Cymru.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A483 tua'r gogledd hyd at ei chyffordd â'r A4081 yn Llandrindod ac ar yr A4081 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A470 i'r gogledd o'r Bontnewydd-ar-Wy: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Sicrheir cymaint o fynediad â phosibl ar gyfer eiddo preswyl a busnes sydd o fewn y darn o'r gefnffordd sydd i'w gau. Ni fydd y ffordd ar gau ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos. Codir arwyddion ymlaen llaw ynghylch y gwaharddiadau cyn gwneud unrhyw waith.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 17 Mawrth 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 19:00 o'r gloch ar 17 Mawrth 2023 hyd 07:00 o'r gloch ar 20 Mawrth 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**THE A470 TRUNK ROAD (LLANELWEDD, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Llanelwedd, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic (motorised and non-motorised) and livestock from proceeding on the length of the trunk road that extends from its junction with the western side of the A470/A483 roundabout to a point 30 metres south-east of the centre-point of its junction with the county road that leads to the main vehicle access of the Royal Welsh Showground.

The alternative route for northbound traffic is via the northbound A483 to its junction with the A4081 at Llandrindod Wells and the westbound A4081 to rejoin the A470 north of Newbridge-on-Wye: vice versa for southbound traffic.

As much access as possible will be maintained for residential and business properties situated within the section of the trunk road subject to closure. The road will only be closed during such times and to such extent as indicated by traffic signs. Notice of the prohibitions will be signed in advance of all works.

The Order comes into force on 17 March 2023. The temporary prohibitions are expected to operate intermittently from 19:00 hours on 17 March 2023 until 07:00 hours on 20 March 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government